Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Beddgelert

**Lôn Caernarfon**

**Beddgelert**

**Gwynedd**

**LL55 4UY**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2011**

**Rhif yr ysgol: 6612010**

**Rhif yr arolygiad: 1528**

**gan**

**Mr Nicholas Jones**

**Arolygydd cofnodol o dan gontract i Estyn**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Beddgelert yn gwasanaethu'r pentref lleol a'r ardal wledig gyfagos yng Ngwynedd. Cymraeg yw prif iaith yr ysgol. Mae 29 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng 3 ac 11 oed, wedi eu trefnu mewn un dosbarth i'r Cyfnod Sylfaen ac un i'r adran iau.

Y Gymraeg yw'r brif iaith a siaredir yng nghartrefi 39% o'r disgyblion. Mae hyn yn llai na phan arolygwyd yr ysgol yn 2005. Mae 7% o ddisgyblion yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol. 'Does dim symudedd disgyblion arwyddocaol yn perthyn i'r ysgol.

Cydnabyddir nad yw'r ardal yn freintiedig nac ychwaith dan anfantais gymdeithasol neu economaidd ac mae gan 3% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn llawer yn llai na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Nodwyd bod gan 10% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn llai na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol. 'Does dim un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Beddgelert yw £5,535, sy'n cymharu ag uchafswm o £8,442 ac isafswm o £2,717 ar gyfer ysgolion cynradd yng Ngwynedd. Gan yr ysgol y mae'r 11eg cyllideb uchaf fesul disgybl o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd.

Mae'r pennaeth dros dro wedi bod yn ei swydd ers Mehefin 2010 a chafodd yr ysgol ei harolygiad diwethaf yn 2005.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos deallusrwydd cyson o'u lles, iechyd a diogelwch;
- y defnydd o'r amgylchedd dysgu, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen;
- mae gweithio effeithiol gyda phartneriaethau cymunedol.

Mae'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae safonau y rhan fwyaf o ddisgyblion yn is na'r lefelau cyrhaeddiad disgwyliedig;
- mae cynllunio'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r gwersi dyddiol yn anghyson;
- nad yw'r addysgu, ar y cyfan, yn herio'r disgyblion;
- mae angen ystyried diogelwch y disgyblion ar faterion y tynnwyd i sylw'r ysgol;
- nad yw'r arweinyddiaeth yn cael yr effaith briodol ar gyfeiriad strategol, er mwyn codi safonau'r disgyblion; a
- nad yw'r hunan werthuso yn arwain at welliannau strategol.

### Rhagolygon gwella

Er bod nodweddion da i'r ysgol fel lles, yr amgylchedd dysgu a gweithio mewn partneriaeth, mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- nad yw'r ysgol wedi mynd i'r afael â rhai argymhellion pwysig o'r arolygiad blaenorol;
- nad yw'r cynllunio strategol a'r hunan werthuso wedi symud yr ysgol ymlaen digon dros gyfnod o amser; a
- nad yw dyletswyddo cyfrifoldebau wedi paratoi staff yn effeithiol am gyfnodau o ansefydlogrwydd yn yr ysgol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol i:

A1 godi safonau'r medrau allweddol yn enwedig rhifedd ac ysgrifennu ymestynnol ar draws y cwricwlwm i greu dysgwyr annibynnol;

A2 sicrhau bod cynllunio'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn gyson ym mhob pwnc, sy'n adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau;

A3 sicrhau bod cysondeb i farcio ac asesu er mwyn arwain at gynllunio gwersi sy'n cynnwys gwahaniaethu effeithiol a heriau pwrpasol;

A4 gwella'r cynllunio strategol i sicrhau bod yr hunan werthuso a thargedau penodol y cynllun datblygu yn arwain yn uniongyrchol at godi safonau disgyblion; a

A5 mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch â diogelwch y tynnwyd sylw'r pennaeth dros dro a'r corff llywodraethol atynt yn ystod yr arolygiad.

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd yr arolygiaeth yn ysgrifennu llythyr i'r ysgol, ac yn anfon copi ohono i'r awdurdod lleol, yn nodi'r meysydd y mae angen eu gwella ac yn esbonio y bydd tîm bychan o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r ysgol i farnu cynnydd ryw flwyddyn yn ddiweddarach. Gwahoddir yr awdurdod lleol i anfon swyddog i ymuno â'r tîm monitro. Os bydd y tîm yn barnu nad oes cynnydd digonol wedi'i wneud, yna gellir barnu bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol, a'i rhoi yn y categori hwn o ganlyniad i'r arolygiad dilynol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae sgiliau sylfaenol y mwyafrif o ddisgyblion wrth ddechrau'r ysgol yn debyg i'r cyfartaledd disgwyliedig. Mae'r mwyafrif yn cyrraedd y deilliannau priodol am eu hoedran erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, mae hyn yn anghyson dros gyfnod o amser.

Wrth feincnodi yn erbyn ysgolion tebyg yn ôl prydau ysgol am ddim, yng nghyfnod allweddol 1 (CA1), mae'r ysgol yn dueddol i fod yn y chwarter cyntaf yng Nghymraeg a gwyddoniaeth a'r pedwerydd chwarter ym mathemateg a'r cyfuniad o byncia u. Yng nghyfnod allweddol 2 (CA2), mae'r data wrth feincnodi yn anghyson iawn, yn tueddu i amrywio rhwng y chwarter cyntaf a'r pedwerydd chwarter ym mhob pwnc ac wrth gyfuno'r pynciau. Y rheswm am y tueddiadau anghyson yw nifer fach y disgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol. Felly, rhaid trin canlyniadau asesiadau athrawon gyda gofal oherwydd gall canlyniadau un disgybl gael effaith sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol.

Ers 2007, mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r norm disgwyliedig dros gyfnod yn CA1 yn is na'r teulu, ALl a Chymru ym mhob pwnc craidd. Yn CA2, mae'r canlyniadau yn uwch na'r teulu, ALl a Chymru yn y Saesneg ym mhob blwyddyn ond am 2008, yn y Gymraeg yn 2007 a 2009, ym mathemateg yn 2009 a 2010 ac yng ngwyddoniaeth yn 2010. Nid yw'n bosibl cymharu canlyniadau diwedd cyfnodau allweddol y merched a'r bechgyn a'r grwpiau eraill o ddysgwyr dros amser, oherwydd y niferoedd bach iawn ym mhob carfan.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd a chyflawniad digonol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol wrth ystyried eu mannau cychwyn. Nid yw'r safonau yn y llyfrau bob tro yn cyfatebu gyda'r lefelau a osodwyd gan yr athrawon. Gwelir hyn yn enwedig ym mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg yn CA2, lle mae'r safonau yn y llyfrau yn is na'r disgwyl. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn ddysgwyr bodlon sy'n mwynhau bywyd yr ysgol. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd digonol o ran eu gallu.

Mae medrau cyfathrebu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ar lafar. Maent yn gwrando'n astud, yn siarad yn glir ac yn darllen yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ddigonol. Nid ydynt yn ysgrifennu'n ymestynnol a chyson mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm. Mae sgiliau drafftio gwaith y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddigonol. Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddigonol ac nid ydynt yn defnyddio'u medrau mathemateg yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm. Mae medrau cyfrifiadurol a thechnoleg bron pob un o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn dda ac yn ddigonol yn CA2.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu medrau ehangach digonol; mae eu hannibyniaeth fel dysgwyr a'r ffordd y maent yn gwerthuso'u gwaith ei hunain a'u cyfoedion yn dechrau datblygu. Mae'r broses newydd hon yn dechrau cael effaith bositif ar eu gwaith. Fodd bynnag, mae sgiliau cyflwyno gwaith ysgrifenedig y rhan fwyaf o ddisgyblion yn anghyson ar draws y cwricwlwm ac o'r herwydd, 'dydy'r cyflwyniad ar bapur ddim bob amser yn adlewyrchu safon y cynnwys.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da gyda'u medrau yn yr iaith Gymraeg.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a ffitrwydd ac maent yn cyflawni'n dda yn eu datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae bron pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod sut y gallant gadw'n iach

trwy fwyta'n synhwyrol ac ymarfer eu cyrff trwy wersi a gweithgareddau ymarfer corff.

Mae'r mwyafrif yn mwynhau eu gwersi ac yn ddiweddar maent yn dechrau datblygu strategaethau i leisio barnau synhwyrol am yr hyn y maent yn eu dysgu. Mae'r ymddygiad yn dda ac mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais ac yn ymateb yn barchus i oedolion a chyfoedion. Mae'r cynllun 'Bydis Buarth' yn cefnogi eraill yn effeithiol iawn ar iard yr ysgol.

Mae'r gyfradd bresenoldeb, sef tua 95%, rhywfaint yn uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol ac mae bron pob un plentyn yn brydlon. Mae aelodau o gyngor yr ysgol a'r pwyllgor eco yn cymryd rhan weithredol trwy wneud rhai penderfyniadau. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, 'dydy'r cyngor a'r pwyllgor ddim yn cael digon o effaith bwrpasol ar fywyd yr ysgol. Mae eu gwaith yn y pentref a'r gymuned leol yn dda.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae cynllunio'r cwricwlwm a phrofiadau dysgu yn ddigonol. Dros amser, mae cynllunio'r Cyfnod Sylfaen yn fwy trwyadl. Mae'r cynllunio diweddaraf ar draws yr ysgol yn dechrau ymdrin â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yn well. Fodd bynnag, 'does dim digon o fanylder wedi bod i gynlluniau'r ysgol dros dymor hir a 'dydy'r cwricwlwm a ddarperir ddim wedi ennyn digon o ddiddordeb i fwyafrif o ddisgyblion. Felly, 'dydy'r cynllunio ddim wedi caniatáu i ddisgyblion adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau wrth iddynt symud o'r Cyfnod Sylfaen i CA2.

Mae'r ddarpariaeth i sicrhau bod y disgyblion yn caffael medrau llythrennedd, cyfathrebu a thechnoleg gwybodaeth yn dda yn y Cyfnod Sylfaen ac yn ddigonol yn CA2. Mae darpariaeth rhifedd ar draws yr ysgol yn ddigonol. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau dysgu annibynnol yn dechrau cael y sylw priodol ac mae'n dechrau amlygu'i hun ym mywyd dyddiol yr ysgol a gwaith y disgyblion. Fodd bynnag, 'does dim cydlynu effeithiol i ddatblygu'r medrau. Dros gyfnod o amser, mae hyn wedi rhwystro'r disgyblion hŷn i fanteisio ar elfennau o'r cwricwlwm ehangach.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod darpariaeth effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth o faterion byd eang. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dda wrth iddynt drafod mentergarwch ac o'r angen i ofalu am yr amgylchedd a'r byd amrywiol a chynaliadwy y maent yn byw ynddo. Defnyddir cyd-addoli yn briodol i amlygu materion sy'n ymwneud â pharch at eraill ac addysg bersonol a chymdeithasol.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig ei ddatblygu'n gadarn ar hyd yr ysgol. Defnyddir uned iaith yr ALl i gefnogi'r ysgol gyda'r ddarpariaeth o'r Gymraeg i hwyr ddyfodiaid sy'n methu siarad Cymraeg.

**Addysgu: Digonol**

Ar y cyfan, mae'r addysgu'n ddigonol. Lle mae addysgu da, defnyddir adnoddau'n effeithiol i gefnogi'r dysgu, fel y gwelir yn y Cyfnod Sylfaen. Mae cwestiynu yn foddhaol ac yn ceisio ymestyn dealltwriaeth disgyblion mewn amgylchedd dysgu cadarnhaol. Mae cyflymdra'r gwersi digonol yn rhy araf a 'does dim digon o her i ddisgyblion. Felly, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn awyddus i ddilyn arweiniad yr athro yn hytrach na meddwl drostynt eu hunain. Mae'r oedolion yn gwrando'n ofalus ar ymatebion y disgyblion ac mae perthynas waith digonol rhwng y rhan fwyaf o oedolion a'r disgyblion ym mhob dosbarth. Yn ambell i bwnc fel mathemateg, mae gorddibyniaeth ar daflenni gwaith a diffyg dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol gan yr athrawon sy'n cyfyngu cyfleoedd i'r disgyblion i ymestyn eu gwaith a'u gwybodaeth.

Mae disgyblion yn elwa o'r ffaith bod eu hathrawon yn siarad yn sensitif a chanmoladwy â nhw am ansawdd eu gwaith. Maent yn rhoi awgrymiadau ac anogaeth synhwyrol ar lafar i ddisgyblion ar gyfer gwella'u gwaith. Mae marcio gwaith y disgyblion yn llai cyson dros gyfnod o amser. Wrth archwilio gwaith CA2 dros rai blynyddoedd, gwelir fod marcio yn anghyson iawn a 'dydy ddim yn dangos yn glir y ffordd ymlaen i ddisgyblion i wella'u gwaith. Mae'r broses o osod targedau defnyddiol ar gyfer disgyblion unigol yn dechrau sefydlu trwy'r ysgol a dechrau cael rhywfaint o effaith adeiladol ar waith y disgyblion. Fodd bynnag, 'dydy gwahaniaethu ar gyfer anghenion datblygiadol y disgyblion mwy abl a thalentog ddim yn fanwl a 'does dim digon o her i symud y disgyblion yma ymlaen i gyflawni'n well.

Mae pob un o'r staff addysgu, gan gynnwys y staff cymorth, yn defnyddio strategaethau ymddygiad yn effeithiol.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn chwarae rôl digonol yn yr ysgol. Mae meini prawf llwyddiant yn dechrau cael y sylw priodol ac yn dechrau ffocysu'r disgyblion ar sut i ddatblygu'u gwaith. Nid yw'r broses o asesu yn rhoi arweiniad digon clir a phendant i ddisgyblion ar sut i wella ansawdd eu gwaith. 'Dydy'r system o lefelu a chymedroli gwaith disgyblion dros amser ddim yn adnabod lefelau cyrhaeddiad y disgyblion gyda digon o gywirdeb.

Mae adroddiadau i rieni yn cyrraedd y gofynion statudol, gyda'r wybodaeth briodol yn ei le. Ar y cyfan, mae rhieni a gofalwyr yn teimlo'u bod yn cael gwybodaeth addas am gynnydd eu plant ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Mae gwybodaeth dda ar gael i ddisgyblion a rhieni am fywyd yr ysgol sy'n cynnwys prosbectws yr ysgol ac adroddiad blynyddol y llywodraethwyr.

Mae trefniadau sefydlu ar gyfer disgyblion newydd yn glir ac mae trefniadau da yn eu lle i drosglwyddo'r disgyblion hŷn i addysg uwchradd. Caiff y ddarpariaeth drefnus ar gyfer lles a manteision byw'n iach eu hyrwyddo'n glir. Mae mentrau cenedlaethol fel y rhai ar gynhwysiad a'r Cyfnod Sylfaen yn cael eu hannog a'u cefnogi'n briodol.

Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau sefydlog ar gyfer diogelu ac mae'r ysgol yn bodloni rheoliadau diogelu yn llawn ar bapur. Fodd bynnag, fe wnaeth yr arolygwyr nodi a thynnu sylw'r pennaeth dros dro a'r llywodraethwyr at fater y mae angen mynd i'r afael â mewn perthynas â diogelu. Mae gan yr ysgol weithdrefnau a systemau effeithiol ar gyfer nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u gwaith.

Ceir darpariaeth gynlluniedig ar gyfer pob un o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r cymorth yn cael ei gydlynu'n effeithiol ac mae cysylltiadau da gydag asiantaethau allanol arbenigol.

Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu'n dda ac fe gaiff y cynlluniau addysg unigol eu harfarnu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae gweithdrefnau adrodd ar anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol yn bodloni gofynion statudol yn effeithiol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer pob disgybl ac mae'n gymuned gwbl gynhwysol. Mae'r cwricwlwm yn hygyrch i bawb, beth bynnag fo'u rhyw, eu hil neu'u crefydd ac mae'r ysgol yn bodloni ei dyletswyddau statudol yn dda.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r adeilad a'r tir yn effeithiol ac maent yn cael eu cynnal yn dda. Mae'r staff cymorth yn gweithio dan arweiniad yn effeithiol gydag athrawon dosbarth i gyflwyno gweithgareddau sydd naill ai'n dda neu'n ddigonol ar draws yr ysgol. Mae ansawdd yr adnoddau'n dda a chânt eu defnyddio â phwrpas i gefnogi anghenion dysgu disgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth dros dro wedi datblygu dealltwriaeth digonol o gynllunio'n strategol mewn amser byr. Mae'r pennaeth dros dro a gweddill y staff yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i greu ethos ysgol gyfan, cadarnhaol, sy'n annog ac yn rhoi gwerth ar waith tîm. Mae systemau rheoli perfformiad yn sefydlog. Mae'r ysgol yn cynnal rheoli perfformiad ac yn gweithredu'r gofyniad cyfreithiol i fonitro ac arfarnu ansawdd yr addysgu ym mhob dosbarth yn ffurfiol fel rhan o'r broses hon.

Mae'r staff yn cyfarfod yn rheolaidd i nodi meysydd i'w gwella. Mae cyfarfodydd cyson a diwrnodau hyfforddi cyfan yn cefnogi datblygiad proffesiynol y staff. Mae cyfrifoldebau penodol gan y staff i ddatblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu. Gwella'r ysgol trwy godi safonau disgyblion ymhellach yw ffocws y cynllunio strategol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae ansefydlogrwydd staffio dros amser a diffygion yn y cynllun o drosglwyddo cyfrifoldebau wedi effeithio blaenoriaethau strategol yr ysgol. Felly, 'dydy'r strwythurau rheoli ddim wedi cyfeirio'r ysgol yn strategol dros amser a mynd i'r afael a materion craidd i wella'r ysgol.

Mae’r ysgol yn mynd i’r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn ddigonol. Mae’r ysgol wedi ennill y Marc Safon Sgiliau Sylfaenol, y wobr efydd o gynllun Ysgolion Gwyrdd Gwynedd a Môn a cham 1 o gynllun Ysgolion Iach. Mae’r Cyfnod Sylfaen yn cael ei roi ar waith yn effeithiol erbyn nawr i bob disgybl hyd at saith oed.

Mae’r llywodraethwyr yn ymgymryd â’u rolau a’u cyfrifoldebau yn deyrngar ac mae ganddynt ddiddordeb cryf ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd. Maent yn datblygu dealltwriaeth ddigonol o’r ffordd y mae’r ysgol yn perfformio trwy wrando ar staff ac ymweld â dosbarthiadau yn achlysurol. Mae’r llywodraethwyr yn mynychu hyfforddiant o bryd i’w gilydd, ond, nid ydynt yn herio’r ysgol gyda digon o fanylder fel ffrindiau beirniadol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae’r ysgol yn cynllunio’n ddigonol ar gyfer gwella. Mae hyn yn seiliedig ar sylfaen o gynllunio strategol ansicr dros amser. Mae gan reolwyr ac arweinwyr ddealltwriaeth ddigonol o gryfderau a gwendidau’r ysgol erbyn nawr ac mae hyn yn arwain tuag at safonau a darpariaeth ddigonol.

Mae’r cynllun datblygu ysgol, sy’n deillio o hunan werthusiad diweddar, yn dechrau cael effaith gadarnhaol er mwyn ymestyn yr ysgol ymhellach. Mae ffocws y cynllun yn targedu meysydd penodol ac mae defnydd digonol yn cael ei wneud o ddata i dracio cynnydd disgyblion a gwella safonau.

Mae’r staff wedi cael eu cynnwys mewn ystod o gyfleoedd hyfforddi a datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio mewn partneriaethau gydag ysgolion a phartneriaid eraill, sy’n cynnwys y rhieni, y gymuned ehangach a’r ALl. Gwnaed cynnydd digonol ers yr arolygiad diwethaf gan fod yr argymhelliad ynglŷn â datblygu’r cynlluniau gwaith heb gael ei gwblhau’n effeithiol er mwyn cefnogi’r dysgu ac addysgu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau gyda rhieni, y gymuned ac eraill yn dda ac mae bron pob un o’r rhieni yn ymfalchïo ym mholisi ‘drws agored’ yr ysgol. Mae’r partneriaethau gyda busnesau lleol yn dda gyda rhai ohonynt yn derbyn plant ar ymweliadau. Mae hyn yn cael effaith bositif ar ymwybyddiaeth y disgyblion o fyd gwaith. Mae’r cysylltiadau trosglwyddo rhwng y cylch meithrin a’r ysgol yn effeithiol. Mae cynlluniau trosglwyddo rhwng yr ysgol a’r ysgol uwchradd, yn galluogi disgyblion hŷn i gael eu paratoi’n briodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Mae ymweliadau â’r gymuned ac ymwelwyr o’r gymuned yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi profiadau disgyblion. Caiff dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill ei datblygu’n dda trwy astudio gwledydd eraill fel yr Almaen a chyfandiroedd fel Affrica. Mae’r ysgol yn cefnogi elusennau priodol sy’n codi ymwybyddiaeth y plant o anghenion pobl eraill yn effeithiol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Caiff staffio, adnoddau a’r cyllid eu rheoli a’u defnyddio’n foddhaol i gefnogi gwella dysgu. Mae gan athrawon wybodaeth briodol i gyflwyno’r cwricwlwm yn ddigonol, er bod meysydd i’w gwella ynglŷn â chodi safonau disgyblion a chynllunio’r cwricwlwm.

Caiff staff cymorth eu defnyddio'n dda ac maent yn gweithio'n effeithiol ochr yn ochr ag athrawon yn yr ystafell ddosbarth neu ar ddyletswyddau trwy gydol y dydd.

Mae gwariant wedi'i gysylltu'n glir â blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol ac mae rheolwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn dda i sicrhau ei fod yn parhau o fewn y gyllideb.  Mae'r strategaeth ar gyfer datblygu'r ysgol i'r dyfodol yn ddigonol am fod diffyg ffocws i gyfeiriad strategol yr ysgol.  Felly, mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian o ran deilliannau disgyblion, darpariaeth ac arweinyddiaeth dros amser.

## Atodiad 1

**Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol**
**Diwedd cyfnod allweddol 1:**

| **Canlyniadau Asesiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2010** | Nifer y disgyblion yn B2 | 2 |
|---|---|---|
| Gan fod nifer y disgyblion a oedd yn gymwys am asesiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn llai na phump, ni chynhwysir gwybodaeth gryno. | | |

**Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol**
**Diwedd cyfnod allweddol 2:**

| **Canlyniadau Asesiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2010** | | Nifer y disgyblion yn B6 | 5 |
|---|---|---|---|
| Gan fod nifer y disgyblion a oedd yn gymwys am asesiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn fwy na phedwar ond yn llai na 10, dim ond dangosyddion perfformiad cyffredinol a gynhwysir. | | | |
| Canran y disgyblion sy'n cyflawni o leiaf lefel 4 mewn mathemateg, gwyddoniaeth, a naill ai Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl asesiad athro. | | | |
| Yn yr ysgol | 80% | Yng Nghymru | 82% |

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Llenwodd bymtheg rhiant neu ofalwr yr holiadur. Mynegant safbwyntiau cadarnhaol am yr ysgol yn gyffredinol ac am y rheolaeth. Teimlant fod ymddygiad ac addysgu'n dda, bod eu plant yn hoffi'r ysgol, yn cael digon o ymarfer corff ac yn cael digon o gymorth ychwanegol. Mae bodlonrwydd bod disgyblion yn cael eu trin yn deg a gyda pharch a bod y plant yn ddiogel yn yr ysgol. Cyfeiriodd riant bryder am un agwedd o ddiogelwch. Mae teimladau cysurus ar y cyfan wrth ofyn cwestiwn i'r ysgol a bod yr ysgol yn helpu'r plentyn i ddod yn aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. Maent yn teimlo bod cymorth i ymgartrefu'r plant pan ddechreuant yn yr ysgol. Mynegodd rieni llai o foddhad gyda chynnydd eu plant, bod y staff yn disgwyl i'w plant weithio'n galed a gwneud eu gorau. Hefyd, am waith cartref, am wybodaeth gyson am gynnydd eu plant, dealltwriaeth o drefniadau cwyno, yr amrywiaeth o weithgareddau a'r paratoadau sydd yn eu lle i baratoi'r plant ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Llenwodd ddeuddeg disgybl yn CA2 yr holiadur. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod pwy i siarad ag os oes unrhyw bryder ganddynt. Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel, yn cytuno bod gwaith cartref yn helpu gyda deall a gwella'u gwaith a bod plant eraill yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth a thu allan o wersi. Mae pob disgybl yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio, bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach a bod llawer o gyfleoedd i gael ymarfer corff. Mae pob disgybl yn teimlo'u bod nhw'n gwneud yn dda yn yr ysgol a bod yr athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i wneud cynnydd. Mae pob disgybl yn teimlo bod digon o adnoddau yn yr ysgol.

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mr Nick Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Eleri Honour | Arolygydd Tîm |
| Mr Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Mr Kevin Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs S Ephraim | Enwebai'r Ysgol |

**Mae’r testun isod ar gyfer adroddiadau arolygiadau ysgolion a gynhelir yn unig – yn achos sectorau eraill, dylech roi gwybodaeth berthnasol ynghylch cefndir a sail ddeddfwriaethol yr arolygiad yn ei le**

**Copïau o’r adroddiad**

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i’r ysgol ddarparu copïau o’r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw’n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy’n gofyn am gopi o’r adroddiad. Os yw ar gael, mae’r adroddiad data i’w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â’r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae’r term ‘Derbyn’ (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy’n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw’r grŵp o fyfyrwyr sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |